
Coeden Ddarllen Rhydychen

# 4 Yr Ystafell Gudd

Roderick Hunt

Alex Brychta



DRAKE



Roedd Cad a Dids yn hoffi'r tŷ newydd.
Roedden nhw'n helpu Mam a Dad.







Rhoddodd Mam bapur ar y wal.
Helpodd Dids hi.



Paentiodd Dad ddrws.
Helpodd Cad e.




Roedd Cad yn ei hystafell.
Edrychodd Dad ar y papur wal.




Roedd Cad eisiau papur wal newydd.




Aethon nhw i'r siop bapur wal.




Edrychodd Cad ar y papur wal.
Roedd hi'n hoffi'r papur wal hwn.



Tynnodd Mam a Dad y papur o'r wal.

Helpodd Cad a Dids.
'Am waith!' meddai Dids.



Cafodd Cad hyd i ddrws.



Roedd y drws yn sownd.



Agorodd Mam y drws.
Cafodd hyd i ystafell.





Edrychodd pawb i mewn.



Aeth Mam i mewn i'r ystafell gudd.
Cafodd hyd i dŷ bychan.




'Mae'n edrych fel ein tŷ ni,' meddai Mam.



Agorodd Cad y tŷ bychan.
Edrychodd pawb i mewn.



‘Mae’n edrych fel ein tŷ ni y tu mewn,’
meddai Cad.




Cafodd Onw hyd i gi bychan.

'Edrychwch ar y ci bychan hwn,' meddai Onw.



'Mae'n edrych fel ein ci ni.'

'Mae'n edrych fel Mwlsyn.'



Cafodd Dids hyd i dri phlentyn bychan.



‘Edrychwch ar y plant,’ meddai Dids.
‘Maen nhw’n edrych fel ni.’




Roedd Cad yn hoffi ei hystafell wely.
Roedd yn hoffi'r ystafell gudd hefyd.

Paentiodd Dad yr ystafell gudd.
Rhoddodd Cad bethau y tu mewn iddi.



Roedd Cad yn y gwely.
Roedd yn cysgu'n drwm.
Breuddwydiodd am y tri phlentyn bychan.



Argraffwyd yng Nghymru

# 4 Yr Ystafell Gudd



Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Storïau yng Ngham 4:**

**Storïau Boncyff**


**1** Tŷ ar Werth
**2** Y Tŷ Newydd
**3** Dewch i Mewn!
**4** Yr Ystafell Gudd
**5** Y Ddrama
**6** Y Storm


**Rhagor o Storïau Pecyn A**
**Trefn ddarllen a gymeradwyir:**


Wlychodd Neb
Y Ceiliog Gwynt
Druan o Mam!
Y Briodas
Y Camcordydd
Y Balŵn



© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1986
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1998
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC



ISBN 0-86174-144-7

ISBN 0 86 174144 7

DRAKE

9 780861 741441


Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 4

Llyfr 4